

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Rheoli Tir yn Gynaliadwy Datganiad o Ddangosyddion a Thargedau

Rhagfyr 2025

# Rhagair

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i weithredu yn y ffordd a fydd yn eu barn nhw yn cyfrannu orau at gyflawni pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy ("SLM").

Mae'r Datganiad hwn o Ddangosyddion a Thargedau SLM yn rhan o gyfres o gyhoeddiadau sy'n disgrifio ac yn esbonio'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i'r Sector Amaethyddol yng Nghymru, ac mae'n cynnwys:

- Cynllun Cymorth Amlflwydd
- Adroddiad Blynyddol
- Adroddiad Effaith
- Adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Mae'r datganiad hwn wedi cael ei baratoi yn unol ag adrannau 4 a 5 o Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Rydym wedi datblygu'r Datganiad o Ddangosyddion a Thargedau SLM gyda chymorth adroddiad ERAMMP 111: Theori Newid – Datblygu Rheoli Tir yn Gynaliadwy a Fframwaith, Dangosyddion a Thargedau Gwerthuso – ERAMMP.

Mae'r tablau'n dangos sut mae pob dangosydd yn cyfateb i amcanion SLM ac yn nodi prif bwrpas y cymorth y mae'r dangosydd yn ymdrin ag ef. Nodir targedau perthnasol hefyd, os ydyn nhw'n berthnasol.

Os bydd unrhyw wybodaeth a ddarperir yn y datganiad yn peidio â bod yn gywir neu'n gyflawn, neu os oes angen ei newid am ryw reswm, bydd y datganiad yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r newidiadau ac yn cael ei ail-osod yn y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

# Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Trwy'r Ddeddf, cafodd SLM ei sefydlu'n fframwaith ar gyfer cefnogi a rheoleiddio amaethyddiaeth yng Nghymru yn y dyfodol. Cafodd pedwar amcan SLM eu diffinio a fydd yn sail i gymorth a rheoliadau amaethyddol yng Nghymru: -

- Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.
- Lliniaru'r newid yn yr hinsawdd ac addasu iddo.
- Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maen nhw'n eu darparu.
- Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, annog mynediad y cyhoedd iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni.

Bwriedir hefyd i bob amcan ddiwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 Llywodraeth Cymru, WG53424
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Dangosyddion a Thargedau Rheoli Tir yn Gynaliadwy

| DANGOSYDDION | TARGEDAU (os yw'n gymwys) |
|---|---|
| **1. Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy** | |
| **(a) Annog cynhyrchu bwyd mewn modd amgylcheddol gynaliadwy** | |
| 1.1A. Allbwn amaethyddol cyfartalog fesul fferm (£)<br><br>Penawdau Allbwn Fferm ar Gyfartaledd yn ôl Math o Fferm a Blwyddyn | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 1.1B. Rheoli pridd yn gynaliadwy | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| **(b) Helpu cymunedau gwledig i ffynnu a chryfhau cysylltiadau rhwng busnesau amaethyddol a'u cymunedau** | |
| 1.2A. Cryfder cadwyni cyflenwi rhwng ffermwyr a'u cymunedau lleol (i fyny'r gadwyn ac i lawr y gadwyn) | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| 1.2B. Nifer / cyfran yr aelwydydd gwledig o dan yr incwm canolrifol (WFG)<br>Aelwydydd Islaw'r Incwm Cyfartalog<br><br>Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru<br><br>Arolwg Cenedlaethol Cymru (S)<br><br>Arolygon Sefydliad Bevan (S) | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 1.2C. Nifer / cyfran y problemau iechyd meddwl a gofnodwyd, nifer y marwolaethau trwy hunanladdiad ac achosion o hunan-niweidio a gofnodwyd mewn cymunedau gwledig<br>Arolwg Cenedlaethol Cymru – Modiwl Lles Meddwl<br><br>StatsCymru – Dangosfwrdd Ystadegau Iechyd Meddwl<br><br>SYG – Cyfrifiad Cymru a Lloegr<br><br>Adroddiad Llesiant Cymru<br><br>MIND – Yr Adroddiad Iechyd Meddwl Mawr | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 1.2D. Tir a ddefnyddir ar gyfer garddwriaeth (hectarau)<br>Arolwg Amaethyddol a Garddwrol 2024 | Cynyddu arwynebedd y tir sy'n cael ei ddefnyddio at ddiben garddwriaeth 60% o'i gymharu â llinell sylfaen 2024: 1,599 o hectarau. |

| DANGOSYDDION | TARGEDAU (os yw'n gymwys) |
|---|---|
| (c) Gwella gwytnwch busnesau amaethyddol | |
| 1.3B. Incwm net y fferm (gan ddangos lefelau'r cyllid cyhoeddus)<br><br>Incwm Ffermydd Llywodraeth Cymru – Incwm fferm<br><br>Stats Cymru – Data incwm<br><br>Arolwg Busnesau Ffermio – Data Fferm | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 1.3C. Niferoedd y gweithlu amaethyddol<br><br>Arolwg Amaethyddol a Garddwrol | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 1.3D. Oedran y gweithlu amaethyddol<br><br>SYG – Swyddfa'r Ystadegau Cenedlaethol Cyfrifiad | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 1.3E. Nifer / cyfran y problemau iechyd meddwl a gofnodwyd, nifer y marwolaethau trwy hunanladdiad ac achosion o hunan-niweidio gan ffermwyr / gweithwyr fferm a gofnodwyd<br><br>Sefydliad Amaethyddol Llesiannol Brenhinol (RABI) – Yr Arolwg Ffermio Mawr (S)<br><br>Arolwg Cenedlaethol Cymru – Modiwl Lles Meddwl<br>StatsCymru – Dangosfwrdd Ystadegau Iechyd Meddwl<br><br>SYG – Data Iechyd Meddwl a Hunanladdiad (S)<br><br>SYG – Arolwg Barn a Ffordd o Fyw<br><br>SYG – Cyfrifiad Cymru a Lloegr | Atal dirywiad pellach mewn dangosyddion iechyd meddwl ymhlith ffermwyr a gweithwyr fferm erbyn 2030. |
| (m) Cyflawni a hyrwyddo safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid | |
| 1.4A. Dangosydd Iechyd a Lles Anifeiliaid | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| (n) Defnyddio adnoddau mor effeithlon â phosib (copi o 3.4) | |
| 1.5A. Tir Amaethyddol a Ddefnyddir (hectarau) | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |

| DANGOSYDDION | TARGEDAU<br>(os yw'n gymwys) |
|---|---|
| 1.5B. Cyfanswm y Gwrtaith Anorganig a ddefnyddir (pob fferm; pob cnwd a phorfa) (kilodunnell)<br><br>Arolwg Ymarfer Gwrtaith Prydain (BFPS) – Ymarfer Gwenwynyddion Prydain (S)<br><br>Arolwg Arferion Ffermydd Cymru – Arolwg Busnes Fferm Cymru<br><br>Bwyd anifeiliaid – UK Soya Annual Progress Report | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 1.5C. Defnydd o Dail Organig (% gorchudd cnwd a glaswellt) (Yn cael ei ddatblygu)<br><br>Arolwg Ymarfer Gwrtaith Prydain (BFPS) – Ymarfer Gwenwynyddion Prydain | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 1.5D. Defnydd o Gynnyrch Amddiffyn Planhigion (PPP) mewn Amaethyddiaeth | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |

| DANGOSYDDION | TARGEDAU (os yw'n gymwys) |
|---|---|
| **2. Lliniaru effeithiau newid hinsawdd ac addasu iddyn nhw** | |
| (e) Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr | |
| 2.1A. Allyriadau nwyon tŷ gwydr blynyddol gan amaethyddiaeth (Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr Amaethyddiaeth)<br><br>Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr Amaethyddiaeth ar gyfer – Allyriadau Nwy Twr | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| (f) Dal a storio mwy o garbon | |
| 2.2A. Cyfradd flynyddol dal a storio carbon (Rhestr Nwyon tŷ gwydr – Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth (LULUCF))<br><br>Rhestr Nwyon Tŷ Gwydr Defnydd Tir, Newid Defnydd Tir a Choedwigaeth Cymru – Allyriadau Nwy Twr | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 2.2B. Offeryn adrodd am lefelau carbon a/neu nwyon tŷ gwydr ar fferm | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| 2.2C. Arwynebedd y mawndir sydd wedi'i adfer | 3,600 o hectarau erbyn 2029. |
| 2.2D. Coed wedi'u plannu | 21,500 o hectarau erbyn 2030 |
| (l) Lliniaru risgiau llifogydd a sychder | |
| 2.3A. Arwynebedd tir fferm sy'n dioddef llifogydd / sychder hir<br><br>Rhaglen LIDAR genedlaethol – LiDAR<br><br>Rhaglen Arsylwi'r Ddaear LlC a Labordai Planedau – Rhaglen Sylwi ar y Ddaear<br><br>Cymru Fyw – Cymru Fyw<br><br>Platfform yr Amgylchedd Cymru – Platfform yr Amgylchedd Cymru | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| 2.3B. Nifer y trwyddedau codi dŵr ar gyfer Amaethyddiaeth<br><br>Adnoddau Dŵr | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| (o) Annog busnesau amaethyddol i reoli ynni'n effeithiol | |
| 2.4A. Capasiti gosodedig ynni adnewyddadwy sy'n eiddo lleol i ffermydd ac ystadau (a chymunedau) Cymru<br><br>Regen i Lywodraeth Cymru – Cynhyrchu Ynni yng Nghymru<br><br>Ystadegau Swyddogol Achrededig Tueddiadau Ynni'r DU<br><br>Dangosfwrdd Data MCS | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM |

| DANGOSYDDION | TARGEDAU (os yw'n gymwys) |
| --- | --- |
| **3. Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maen nhw'n eu darparu** | |
| (g) Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau | |
| 3.1A. / 4.2B. Lechyd a Gwytnwch Ecosystemau | Dangosydd / targed yn cael eu datblygu. |
| 3.1B. Nifer rhywogaethau | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| (i) Gwella ansawdd aer | |
| 3.2A. Amonia | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| 3.2B. Gorchudd Canopi sy'n cyfrannu at ansawdd aer Coetir a Choed | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| (j) Gwella ansawdd dŵr | |
| 3.3A. Holl gyrff dŵr croyw Cymru mewn statws cyffredinol da<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru – Ansawdd dŵr yng Nghymru<br><br>Rheoli Tir Cymru – Llygredd Amaethyddol (S) | Statws cyffredinol da ar gyfer yr holl ddyfroedd. |
| 3.3B. Pathogenau o amaethyddiaeth mewn dyfroedd croyw ac arfordirol<br><br>Cyfoeth Naturiol Cymru | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| 3.3C. Canran y priddoedd sy'n dir âr a glaswelltir wedi'i wella sydd dros lefelau trothwy risg trwytholchi ffosfforws | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| (n) Defnyddio adnoddau mor effeithlon â phosibl (copi o 1.5) | |
| 3.4A. Tir Amaethyddol a Ddefnyddir (ha) | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 3.4B. Cyfanswm y Gwrtaith Anorganig a ddefnyddir (pob fferm; pob cnwd a phorfa) (kt)<br><br>Arolwg Ymarfer Gwrtaith Prydain (BFPS) – Ymarfer Gwenwynyddion Prydain<br><br>Arolwg Busnes Fferm Cymru – Cais NPK yn ôl Math o Fferm<br><br>Bwyd anifeiliaid – UK Soya Annual Progress Report | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 3.4C. Defnydd o Dail Organig (% gorchudd cnwd a glaswellt) (Yn cael ei ddatblygu)<br><br>Arolwg Arferion Gwrtaith Prydain (BFPS) – Ymarfer Gwenwynyddion Prydain | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |
| 3.4D. Defnydd o Gynnyrch Amddiffyn Planhigion (PPP) mewn Amaethyddiaeth | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |

| DANGOSYDDION | TARGEDAU (os yw'n gymwys) |
|---|---|
| **4. Gwarchod a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol, annog mynediad y cyhoedd iddyn nhw ac i ymwneud â nhw, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso'r defnydd ohoni** | |
| (d) Cynnal yr iaith Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd | |
| 4.1A. Nifer a chyfran y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal wledig a / neu'r sector amaethyddol<br><br>SYG – Iaith Gymraeg<br><br>Arolwg Cenedlaethol Cymru – Arolwg Cenedlaethol Cymru<br><br>Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth – Iaith Gymraeg<br><br>Arolwg ar y Defnydd o'r Gymraeg – Arolwg ar y Defnydd o'r Gymraeg | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM |
| (h) Cadw a gwella tirweddau a'r amgylchedd hanesyddol | |
| 4.2A. / 3.1A. Iechyd a Gwytnwch Ecosystemau: Cyflwr tirweddau dynodedig | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| 4.2B. Asedau'r Henebion Cofrestredig a Nodwedd Amgylchedd Hanesyddol<br><br>Arolwg Cofebion Cadw mewn Perygl – Dogfen Fewnol<br><br>Cofnod Amgylchedd Hanesyddo – HER/HENEB<br><br>ERAMMP – Atodiad Technegol – 105TA1S11 | Sicrhau bod 75% o'r henebion cofrestredig mewn cyflwr ffafriol/risg isel erbyn 2035. |
| (k) Cynnal a gwella mynediad y cyhoedd i gefn gwlad a'r amgylchedd hanesyddol ac i ymwneud â nhw | |
| 4.3A. Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar agor ac wedi'u nodi<br><br>ERAMMP – Arolwg Maes Cenedlaethol | Cynyddu cyfran yr Hawliau Tramwy sydd ar agor ac wedi'u nodi i 60% erbyn 2030 o'i gymharu â data ERAMMP 2025. |
| 4.3B. Ystadegau ymgysylltu Arolwg Pobl a Natur Cymru<br><br>PaNS Cymru – Arolwg Pobl a Natur (S) | Dangosydd / targed yn cael ei ddatblygu. |
| 4.3C. Diwrnodau agored ar fferm / ymweliadau â ffermydd / grwpiau ysgol<br><br>PaNS Cymru – Arolwg Pobl a Natur (S)<br><br>LEAF – Open Farm Sunday<br><br>Cynaliadwyedd mewn Amaethyddiaeth (S)<br><br>Ffermydd i Blant y Ddinas (S) | Dim targed.<br><br>Bydd data ar gyfer pob cyfnod adrodd, gan gynnwys cynnydd cronnol tuag at gyflawni amcanion SLM, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiadau effaith ac SLM. |